# Cartrefi mamolion bach

## Nodiadau'r athro

### Nod
Arddangos opsiynau cartrefi mamolion bach.

### Amcanion
Bydd y myfyriwr yn gallu:
- Nodi manteision ac anfanteision gwahanol fathau o gartrefi.
- Sefydlu pa un fyddai mwyaf addas ar gyfer rhywogaethau gwahanol.
- Sefydlu beth fyddai'n diwallu anghenion amrywiol anifeiliaid orau.
- Awgrymu sut fath o lety fyddai orau i gwrdd ag anghenion yr anifeiliaid.
- Cyfiawnhau'r syniadau hyn.

### Cynnwys
Mae'r uned hon yn darparu seiliau i ddeall beth yw anghenion llety rhai mamolion bach.
Cyflwynir egwyddorion cyffredinol anghenion llety anifail, yn nhermau ffisioleg a seicoleg; mae hwn wedi ei gysylltu ag ymddygiad naturiol yr anifail a'r amgylchedd.

Y gobaith yw y bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio'r rhain wrth ymdrin â rhywogaeth o ddiddordeb arbennig.  Mae'r egwyddor hon yn gallu arwain at drafodaeth dosbarth, ymchwil annibynnol, fel yr awgrymir o fewn y cynllun gwers.  Cynhwysir 'offeryn trafodaeth' i'w ddefnyddio er mwyn coladu'r casgliadau wnaed.

***Cyflwyniad – Awgrym ar gyfer cynllun gwers***

| Amseriad mun: eil | | Gweithgaredd | Cynnwys mynegol | Tasgau Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Ffisioleg Anifail | Pam mae'n rhaid i ni ystyried ffisioleg anifail?<br>Pa grwpiau Pathogenaidd a Fermin sy’n gallu bod yn fygythiad?<br>Pa amrediad o offer a ellir eu defnyddio i lanhau’r lloc yn drwyadl?<br>Pa gyfrwng/gyfryngau glanhau a ddefnyddir yn gyffredinol? | Trafodwch pa gyfryngwyr achosi afiechyd sydd fwyaf perthnasol i’r gwahanol rywogaethau.<br>Fel rhan o grŵp - Gwnewch gynllun a fydd yn sicrhau cadw’r fermin i leiafswm, a phenderfynwch sut y gellir lleihau haint o ffynonellau allanol.<br>Archwiliwch sefydliad sy’n cael ei ddefnyddio eisoes, a nodwch unrhyw ardaloedd/ffactorau risg |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Seicoleg Anifail_1 | Pam fod iechyd meddwl yn ystyriaeth bwysig?<br>Pa fath o gyflwr seicolegol fydd yn deillio o amgylchedd amhriodol?<br>Pa fathau o ymddygiad fydd yn deillio o straen gormodol?<br>Beth yw’r cysylltiad rhwng straen ac amgylchedd naturiol ag ymddygiad naturiol yr anifail? | Myfyrwyr i roi cyflwyniad dan y pennawd ‘Cyfoethogi Amgylcheddol.’<br><br>Ymchwiliwch a chyflwynwch rhai symptomau straen, a nodwch batrymau ymddygiad penodol sy’n dangos bod yr anifail yn dioddef o straen. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Seicoleg Anifail_2 | Beth yw cyfrifoldeb cyfreithiol unrhyw un sy'n cadw anifeiliaid?<br><br>Sut mae hyn yn perthyn i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006?<br><br>Sut mae hyn yn berthnasol i 5 rhyddid anifail yr *RSPCA*?<br><br>Yn enwedig 'rhyddid i fynegi ymddygiad naturiol neu normal'? | Eglurwch pam fod darparu amgylchedd naturiol yn caniatáu i anifail arddangos ymddygiad naturiol, a sut mae hyn yn lleihau straen<br><br>Cymhwyswch y canfyddiadau i sefydliad sy'n bod eisoes; ar ffurf archwiliad. |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Ymddygiad Normal / Naturiol | Pam fod nifer o famolion bach â ffordd o fyw yn y nos?<br><br>Fyddai'n 'normal' neu 'naturiol' i fwyafrif o anifeiliaid wynebu straen yn ystod eu bywyd?<br><br>Ydych chi'n credu ei bod hi'n dderbyniol i ni gyflwyno elfen o straen yn fwriadol i anifeiliaid sydd wedi eu caethiwo? | Myfyrwyr i ddadlau a yw hi'n dderbyniol bod straen megis lluniau o ysglyfaethwr, neu alwadau neu arogl ysglyfaethwr i'w gyflwyno'n fwriadol, er mwyn galluogi'r anifeiliaid bychain i ymddwyn yn normal neu'n naturiol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Cyfoethogi | Sut  fedrwn ni greu amgylchedd sydd yn iach?<br><br>Beth allai ddigwydd o ganlyniad i or-lanhau?<br><br>Dywedir bod amgylchedd addas sydd wedi ei pharatoi’n dda yn ‘Cyfoethogi’.  Gellir cyfoethogi amgylchedd trwy sicrhau bod y gwely a’r holl offer cywir yn bresennol  - pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar ymddygiad anifail?<br><br>Gallai hyn olygu ychwanegu tasgau neu bosau i’r anifeiliaid rhyngweithio â nhw.<br><br>Rhaid i anifeiliaid cymdeithasol gael cymar i ryngweithio â nhw. | Trafodaeth neu dasg grŵp – Pam na ddylech chi or-lanhau?<br><br>Dyluniwch, adeiladwch a gwnewch bos neu dasg a fyddai’n cyfoethogi amgylchedd anifail. Yna, arsylwch sut mae’r anifail yn rhyngweithio gyda’r gwrthrych newydd hwn. |

TELESGOP

NGfL CYMRU GCaD

| *Opsiynau lloc eraill (y manteision a'r anfanteision) – Awgrym ar gyfer cynllun gwers* | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Amseriad mun: eil | | Gweithgaredd | Cynnwys mynegol | Tasgau Awgrymedig |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Caets | Beth sy'n gwneud y caets hwn yn addas ar gyfer mamolion bach?<br>Ystyriwch wagle, awyriad ac ymddygiad.<br><br>Beth yw'r prif anfanteision?<br>Ystyriwch ddianc a glanhau. | Tasg ryngweithiol sydd wedi ei chynnwys o fewn y pecyn hwn - wedi'i chysylltu ag 'opsiynau Lloc' a gwersi 'Amgylchedd Naturiol' o fewn y modiwl hwn.<br><br>Rhaid i'r myfyrwyr gysylltu'r amodau o fewn yr amgylchedd naturiol â'r lloc a ddarperir. |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Tanc | Beth sy'n gwneud hwn yn addas?<br>Ystyriwch ddianc a glanhau.<br><br>Pa swbstradau a ellir eu defnyddio?<br>Pa fath o ymddygiad mae hwn yn eu caniatáu?<br><br>Beth yw prif anfantais dyluniad y lloc hwn? | |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Tŵr | Beth yw'r un anfantais fawr o ddefnyddio'r lloc hwn?<br><br>Pa ymddygiad naturiol mae hwn yn galluogi'r anifail i wneud?<br><br>Oes awyriad da gan y lloc hwn? | |

TELESGOP

NGfL CYMRU GCaD

***Amgylchedd Naturiol – Awgrym ar gyfer cynllun gwers***

| Amseriad mun: eil | | Gweithgaredd | Cynnwys mynegol | Tasgau Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Llygoden fawr | Sut mae'r llygoden fawr yn oportiwnydd mewn perthynas â bwyd?<br><br>Beth yw'r agweddau allweddol sy'n berthnasol i ymddygiad normal llygoden fawr? | Tasg ryngweithiol sydd wedi ei chynnwys o fewn y pecyn hwn - wedi'i chysylltu ag 'opsiynau Lloc' a gwersi 'Amgylchedd Naturiol' o fewn y modiwl hwn.<br><br>Rhaid i'r myfyrwyr gysylltu'r amodau o fewn yr amgylchedd naturiol â'r lloc a ddarperir. |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Llygoden | Oddi wrth beth mae'r llygod bach yn hoffi cuddio yn y gwyllt? | |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Bochdew | Beth sydd gan fochdewion ganfyddiad gwael ohono?<br><br>Mae bochdewion yn tueddu i gynhyrchu mwy o arogl<br><br>Sut ffordd o fyw sydd gan y bochdewion wrth ymateb i ryngweithiad cymdeithasol? | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Jerbil | Sut ffordd o fyw sydd gan y jerbilod  wrth ymateb i ryngweithiad cymdeithasol?<br><br>Lle mae'r jerbilod yn byw?  Pa fath o ymddygiad naturiol mae hyn yn eu hannog i weithredu er mwyn creu lle i fyw ynddo?<br><br>Pa fath o dirwedd a swbstrad mae'r jerbilod yn byw ynddo? | |